# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Ebrill 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Nododd y Rheolwyr Busnes fod dadl fer Leanne Woods, a oedd wedi'i hail-amserlennu o 18 Mawrth, wedi'i thynnu'n ôl.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 29 Ebrill 2015 –**

- ~~Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) –~~ Gohiriwyd i 13 Mai 2015

**Dydd Mercher 13 Mai 2015 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- ~~Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)~~ – *Tynnwyd yn ôl*
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) – *Gohiriwyd o 29 Ebrill 2015*

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil yr Amgylchedd (Cymru) at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan gyfarfod yn y dyfodol i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

4.2 Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan gyfarfod yn y dyfodol i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

4.3 Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth yn amlinellu ei phrif weithgarwch deddfwriaethol dros y misoedd nesaf.

## 5 Amserlen y Cynulliad

5.1 Dyddiadau ar gyfer toriadau'r Cynulliad 2015-16

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes ddyddiadau toriad hanner tymor yr Hydref a'r Nadolig ar gyfer 2015 a chytunodd ar ddyddiadau toriad dros dro hanner tymor y gwanwyn yn 2016.

Ar ôl ystyried amseriad y Pasg yn 2016, a pha mor agos y mae at ddiddymiad y Cynulliad, cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd ar ddyddiadau dros dro ar gyfer toriad y Pasg yn 2016. Adolygir y dyddiadau dros dro hyn ar ddiwedd y flwyddyn cyn cael eu cadarnhau.

| | **Dyddiadau** |
|---|---|
| **Hanner Tymor yr Hydref** (1 wythnos) | *Dydd Llun 26 Hydref 2015 – Dydd Sul 1 Tachwedd 2015* |
| **Toriad y Nadolig** (4 wythnos) | *Dydd Llun 14 Rhagfyr 2015 – Dydd Sul 10 Ionawr 2016* |
| ***Hanner Tymor y Gwanwyn** (1 wythnos) | Dydd Llun 15 Chwefror 2016 – Dydd Sul 21 Chwefror 2016 |
| ***Toriad y Pasg** | Dydd Llun 21 Mawrth 2016 – Dydd Mawrth 5 Ebrill 2016<br><br>(Bydd y diddymiad yn dechrau ar ddydd Mercher 6 Ebrill 2016) |

***Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.**

## 6 Y Rheolau Sefydlog

6.1 Papur i'w nodi – Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Cofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o ran yr adroddiad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau, yn cadarnhau bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn gyson gyda bwriadau'r Pwyllgor a'r Comisiynydd Safonau.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn drafftio adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer cymeradwyaeth gan y Rheolwyr Busnes, a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law ynghylch amserlen i'r Cynulliad drafod y newidiadau arfaethedig.

**Unrhyw Fater Arall**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes gyda chais gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gyfnewid ei sesiwn holi â'r slot sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Gorffennaf, o 15 Gorffennaf i 8 Gorffennaf 2015.